



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/TJ

15 Chwefror 2019

Annwyl Llyr

Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Fel y gwyddoch, fe gyflwynais Fil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn y Cynulliad ar 12 Chwefror 2019.

Credaf y gall fod o gymorth rhoi rhywfaint o gyd-destun i'ch pwyllgor wrth iddo drafod adran 27 o'r Bil: 'Dyletswydd i ystyried diwygio'r modd y goruchwylir y Comisiwn Etholiadol'.

Barn y Comisiwn Etholiadol yw y dylai gael ei gyllido gan y Cynulliad a bod yn atebol i'r Cynulliad, yn hytrach na Senedd y DU, am ei waith yn ymwneud ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig.

Gan mai'r Cynulliad sy'n gyfrifol am etholiadau datganoledig Cymru, mae Comisiwn y Cynulliad o'r farn y dylai'r Cynulliad hefyd ystyried newid y trefniadau cyllido a goruchwyllo ar gyfer yr etholiadau hyn. Datganolwyd y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud hyn yn Neddf Cymru 2017, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2018.

Fodd bynnag, mae nifer o faterion allweddol sydd angen ystyriaeth bellach, gan gynnwys:

- y gost i'r Comisiwn Etholiadol reoleiddio etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru;

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

- cyllido'r fath gostau gan y Cynulliad a'r gweithdrefnau cyllideb a threfniadau archwilio cysylltiedig;
- sut y câi'r arian i dalu costau o'r fath ei drosglwyddo o San Steffan i'r Cynulliad;
- y trefniadau i'r Cynulliad ddwyn y Comisiwn Etholiadol i gyfrif am ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru; a
- sut y byddai trefniadau craffu o'r fath yn gweithio ochr yn ochr â gwaith craffu Senedd y DU ar y Comisiwn Etholiadol.

Felly, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Senedd i ystyried a ddylai'r Comisiwn Etholiadol gael ei gyllido gan y Cynulliad am ei waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru, ac a ddylai fod yn atebol i'r Cynulliad am y gwaith hwnnw.

Bwriad y ddarpariaeth hon yn bennaf yw rhoi arwydd o fwriad polisi (yng Nghyfnod 1 o'r Bil) i roi sylw i drefniadau cyllido ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol trwy welliannau i'r Bil.

Os bydd y Cynulliad yn argymhell y dylid cefnogi cymryd cam o'r fath, rwy'n rhagweld y byddai gwelliannau yn cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 i lunio trefniadau i'r Comisiwn Etholiadol gael ei gyllido gan y Cynulliad a bod yn atebol iddo.

Wrth ymdrin â'r mater yn y ffordd hon, rwyf wedi ystyried y pryderon posibl na fydd gan Aelodau ond cyfle cyfyngedig i graffu ar drefniadau o'r fath. Fodd bynnag, credaf fod y ffordd hon (sef defnyddio'r Bil hwn fel cyfrwng deddfwriaethol i gyflwyno darpariaeth o'r fath) yn ffordd fwy priodol o ddefnyddio amser y Cynulliad na chyflwyno'r trefniadau mewn Bil annibynnol.

Edrychaf ymlaen at ymgysylltu â'r Pwyllgor ymhellach yng Nghyfnod 1.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd